



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Mae gwefan y Bugail Digidol yn dysgu pwysigrwydd pori cadwraeth



**Mae pori cadwraeth yn gymorth i gadw unrhyw blanhigion ymledol ac ymosodol dan reolaeth, ac yn creu cynefinoedd sy'n gymorth i bryfaid peillio, adar sy'n nythu ar y tir, gloynnod byw a rhywogaethau eraill i ffynnu.**

Mae gwefan newydd wedi cael ei chreu i helpu plant i ddysgu am y modd y mae rheoli'r ffordd y mae gwartheg, defaid a cheffylau yn pori yn chwarae rôl allweddol o ran diogelu bioamrywiaeth yn ein cefn gwlad.

Mae pori cadwraeth yn gymorth i gadw unrhyw blanhigion ymledol ac ymosodol dan reolaeth, ac yn creu cynefinoedd sy'n gymorth i bryfaid peillio, adar sy'n nythu ar y tir, gloynnod byw a rhywogaethau eraill i ffynnu.

Mae gwefan newydd 'Y Bugail Digidol', a ddatblygwyd gan

Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac a ariennir gan grantiau Ewropeaidd, yn llawn cynlluniau gwersi ac adnoddau y gall ysgolion eu defnyddio i addysgu disgyblion, o'r blynyddoedd cynnar i'r ardegau, am bwysigrwydd pori cadwraeth.

Mae'r wefan hefyd yn egluro sut y dylai pobl ymddwyn yn fwy cyfrifol o amgylch da byw.

Meddai'r Cynghorydd Charles Smith, Aelod Cabinet y Cyngor dros Addysg ac Adfywio, *"Pan fyddwch chi allan yn yr ardal leol, yn ymweld â gwarchodfeydd natur neu fannau gwyrdd eraill, efallai y dewch ar draws da byw yn pori, heb sylweddoli pwysigrwydd y rheswm pam y maent yno.* *"Mae dirywiad ecosystemau yn un o'r heriau mwyaf yr*

*ydym yn eu hwynebu yn y byd heddiw. Mae pori cadwraeth dan reolaeth yn hanfodol i wrthdroi'r dirywiad hwnnw, ac felly rwyf yn falch o weld yr adnoddau ar-lein newydd hyn yn dod ar gael. Maen nhw'n addas i athrawon eu defnyddio o'r cyfnod sylfaen hyd at gyfnod allweddol pump.*

*"Rwyf yn siŵr y bydd athrawon yn ei gael yn bwnc diddorol i'w astudio gyda phlant iau, a gall disgyblion hŷn archwilio bioleg ecosystemau mewn mwy o ddyfnder.*

*"Hoffwn hefyd i'r holl drigolion wybod bod yna nifer o reolau i'w dilyn o gwmpas yr anifeiliaid hyn er mwyn gwneud pori cadwraeth yn bosibl ar safleoedd fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig. Yn gyntaf, os gwelwch yn dda, cadwch gŵn ar dennyn a glanhau unrhyw faw ci ar eu hôl. Hefyd, os gwelwch yn dda,*

*cadwch gŵn ar dennyn a  
glanhau unrhyw faw ci ar eu  
hól. Hefyd, os gwelwch yn dda,  
peidiwch â gadael sbwriel o  
gwmpas gan y gallai hwnnw  
gael ei fwyta gan yr anifeiliaid,  
neu gallai'r deunydd pacio  
achosi niwed iddynt.*

*"Hoffwn hefyd i'r holl drigolion  
wybod bod yna nifer o reolau  
i'w dilyn o gwmpas yr  
anifeiliaid hyn er mwyn  
gwneud pori cadwraeth yn  
bosibl ar safleoedd fel  
Gwarchodfa Natur*

*Genedlaethol Cynffig. Yn  
gyntaf, os gwelwch yn dda,  
"Mae'n wirioneddol bwysig  
hefyd peidio â chyffwrdd â'r da  
byw na'u bwydo, na chynnau  
tanau gerllaw. Dylid parchu  
ffensys ar y terfynau a  
pheidwch â reidio beiciau  
modur na beiciau pedair  
olwyn yn agos i'r anifeiliaid. os  
gwelwch yn dda.*

*"Mae ar anifeiliaid a  
phlanhigion angen anifeiliaid a  
phlanhigion eraill i'w helpu i  
oroesi a ffynnu. Mae arnom  
ninnau eu hangen hefyd, ac  
felly edrychwch ar ôl ein cefn  
gwlad, os gwelwch yn dda, er  
mwyn cenedlaethau'r  
dyfodol."*

Gellir gweld gwefan 'Y Bugail  
Digidol' yn  
[www.bridgendreach.org.uk/digital-shepherd](http://www.bridgendreach.org.uk/digital-shepherd).

Datblygwyd y prosiect gan Dîm  
Datblygu Gwledig Reach Pen-y-  
bont y Cyngor mewn  
partneriaeth â Meddwl, Dysgu,  
Herio!. Mae'r prosiect wedi  
derbyn £13,000 o arian drwy  
Raglen Cymunedau Gwledig –  
Datblygu Gwledig Llywodraeth  
Cymru 2014-2020, sy'n cael ei  
hariannu gan Gronfa

Amaethyddol Ewrop ar gyfer  
Datblygu Gwledig a  
Llywodraeth Cymru.

